# Y PRISIAU A FU
## Llyfrau Cymreig yn y Catalogau


DAETH i'm meddiant yn ddiweddar gasgliad helaeth o gatalogau llyfrwerthwyr Lloegr o hanner cyntaf y ganrif bresennol. Diddorol oedd sylwi ar brisiau'r llyfrau oedd yn ymwneud â Chymru a'u cymharu â'r prisiau cyfatebol heddiw ac â phrisiau llyfrau mewn meysydd eraill. Cynhwysai catalogau Thorp o 1921 a 1925 gopi o *Heraldic Visitations* Meyrick am £11, *Mona Antiqua* Rowlands am £1.50, *Cambria Depicta* Pugh am £7.50, a dwy gyfrol *Poems* Edward Williams am 30 ceiniog. Tua'r un cyfnod cynigiwyd copi o *Historie of Cambria (1584)*, Lhwyd/Powell am £10 gan Harry Jones o Gaer a chopi o argraffiad 1697 o'r un llyfr gan William Robinson am 12 ceiniog! Erbyn 1958 roedd pris argraffiad 1584 wedi codi i £18 yng nghatalog Foyles a phris yr *Heraldic Visitations* i £15. (Cynhwysai'r un catalog gopi o *British Herbal* Hill am £25 — llyfr sydd heddiw yn cael ei werthu am ryw £700.)

Cafwyd rhai o'r llyfrau mwyaf diddorol yng nghatalogau Quaritch. Yn 1935 bu copi o *A playne and familiar Introduction . . .* (1567) William Salesbury ar werth ganddynt am £90. *'Less than a dozen copies appear to be known'* chwedl y catalog. Cynhwysai'r un catalog nifer o lyfrau naturiaethegol adnabyddus — *Natural History of Oxfordshire* Plot (£1.10), *Natural History of Barbados* Hughes (£2.80) a *Insects* Donovan (£7.50) — llyfrau sydd erbyn heddiw wedi cynyddu rhyw dri neu bedwar canwaith yn eu gwerth. Ymddengys na lwyddwyd i werthu llyfr Salesbury a bu ar werth ddeng mlynedd yn ddiweddarach (Catalog 619 (1944)) a'r tro hwn am £70.

Ond efallai mai'r catalog mwyaf diddorol oedd eiddo Quaritch am 1955. Cynhwysai hwn gopi o *Historiae Brytannicae Defensio . . .* Price (1573) am £12 (bu copi ar werth gan Sokol Books yn Ffair Llundain eleni am £1,450) a hefyd y copi o Feibl William Morgan a gyflwynwyd gan y cyfieithydd i'w gynorthwywr David Powell ar 17 Rhagfyr 1588 ac a gynigiwyd am £500. Faint, tybed, fyddai ei werth heddiw?

Y llyfr Cymreig drutaf y sylwais arno o'r cyfnod cyn y rhyfel diwethaf oedd yng nghatalog Quaritch am 1938 — eitem 340 — *Cyd-Gordiad Egwyddorawl o'r Scrythurau* Abel Morgan . . . Argraphwyd yn Philadelphia . . . MDCCXXX. *'Extremely rare'* chwedl Quaritch a gofynnwyd £150 amdano.

R. ELWYN HUGHES
(Pentyrch)


THE — I. c. 6.

NATURAL HISTORY

OF

BARBADOS.

IN TEN BOOKS.

By the REVEREND

Mr. GRIFFITH HUGHES, A.M.

Rector of St. LUCY's Parish, in the said Island, and F. R. S.

LONDON:

Printed for the AUTHOR;

And sold by most Booksellers in *Great Britain* and *Ireland*. MDCCL.

## At y golygydd . . .

YN RHIFYN y Nadolig o'r *Casglwr* gofynnodd Dafydd Guto pwy oedd 'J.M.S.', arlunydd rhai o'r cardiau Nadolig a gynhwyswyd yn ei erthygl.

Ceir sôn amdano yn y rhagymadrodd i'm llyfr *Cymry'r Cardiau Post* a rhagor o esiamplau o'i waith yng nghorff y llyfr. Yr oedd Joseph Morewood Staniforth (1863-1921) yn gartwnydd y *Western Mail* ar ddiwedd y ganrif o'r blaen a blynyddoedd cyntaf y ganrif nesaf. Ef a ddyfeisiodd y ffigur cartwnaidd 'Dame Wales' a boblogeiddiwyd yn y 'Dame Wales Series' o gardiau a gyhoeddwyd gan y papur. Ceir trafodaeth arni yn y bennod gyntaf o lyfr Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl, 1850-1914*, ac fe welir cartwnau eraill ganddo (digon ceidwadol, os nad adweithiol) yn y llyfr diweddaraf Hywel Tefi, *Arwr Glew Erwau'r Glo*. Staniforth hefyd a greodd ferch 'Dame Wales' ar y cardiau Nadolig yn gynnar yn y ganrif hon, Cymraes emblematig fwy mentrus, hyderus a herfeiddiol na'i mam.

Yn gywir iawn,

E. G. MILLWARD
Llwyncelyn, 44 Ger-y-llan
Penrhyn-coch, Ceredigion
SY23 3HQ

#### HAFINA CLWYD YN CASGLU MYGIAU
*(parhad o dudalen 9)*

TANDAC IAYO NE. Cewch chi ddyfalu pa iaith yw hi.

Yn 1982 roedd hi'n saith-canmlwyddiant marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf ac fe gyhoeddwyd mŵg o grochenwaith o liw gwinau ac ar ei waelod y geiriau, 'Gwnaed yn arbennig i Siop y Pentan. Crochenwaith Talacharn'. Ceir arno lun o'r maen coffa yng Nghilmeri a'r geiriau, 'Ger y fan hon y lladdwyd Llywelyn ein Llyw Olaf, 1282' ac ar yr ochr arall y geiriau, 'Llywelyn Ein Llyw Olaf Cofio Cilmeri 1282-1982'.

Pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn Llanelwedd yn 1993 cefais gyfle ar y pnawn Sul cyntaf i ymweld â Chilmeri am y tro cyntaf erioed. Yr oedd yn brofiad rhyfeddol. Ac unig iawn. Anodd dygymod â difrawder crynswth y genedl.

Sefydliad arall sydd wedi diflannu yw'r *Faner* ac yn ystod yr ymgyrch i geisio ei hachub bu nifer yn gweithio'n ddiwyd yn codi arian. Yn naturiol ddigon ymhlith y nwyddau i'w gwerthu yr oedd mŵg. Gwnaed yng Nghymru gan *The Welsh Beaker Company*. Mae'r ysgrifen ar y mŵg yn wyrdd hyfryd ac mewn cylch o gwmpas y top ceir y geiriau, 'Cylchgrawn Annibynnol y Genedl' ac o gwmpas y gwaelod, 'Yn gwasanaethu Cymru ers 1843'. A'r *'Faner'* mewn llythrennau bras, gwyrdd.

Teimlad o dristwch ac o fileindra ddaw drosof wrth edrych ar fŵg *Y Faner*. Tristwch ein bod wedi ei cholli a hithau o fewn dwy flynedd i fod yn gant a hanner oed. Tristwch mai fi oedd ei golygydd olaf. Mileindra oherwydd i adran y triciau budron fod mor brysur yng nghyffiniau ein prifddinas. Nid yw hanes tranc *Y Faner* wedi'i ysgrifennu hyd yn hyn.

Yn y Bala yr oedd *Y Faner* yn cael ei chyhoeddi ac yn y Bala yr euthum i'r ysgol hefyd am gyfnod. Afraid dweud felly fy mod yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1997 — yn y Bala. A mŵg i godi arian i gronfa'r Bala yw'r diweddaraf i mi ei brynu. Nid wyf yn siŵr beth yw'r geiriau ar ei waelod — credaf, a gobeithiaf, mai *'Wales'* yw'r gair sydd wedi hanner diflannu i'r clai. Ond y mae'r llun ar y mŵg yn ddigon clir. Mae'r haul yn tywynnu. Mae'r bugail yn gwisgo'i gap yn null pobl y fro — hynny yw, ar un glust. Y mae'r defaid o'i gwmpas — un yn pori, dwy yn gwrando. Gwrando hefyd y mae'r ci defaid (a dyma grud treialon cŵn defaid wedi'r cwbl) ac y mae'r bugail yn ei gyfarch, 'Bore da, Wa!' Mae hwn yn ychwanegiad derbyniol i'r casgliad.

'Rydwi wedi mwynhau edrych ar yr holl fygiau unwaith eto. Ond wedi gwneud hynny rwyf wedi sylweddoli un peth : mae'n hen bryd i mi eu golchi!